

CYNLLUN TREF AC ARDAL LLANGOLLEN A LLANDYSILIO

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”

2013 – 2020

Diwygiwyd 12/11/13

CYNNWYS

Rhagarweiniad

T.3

Cynllun Tref Llangollen

T.4

Y Cysylltiad rhwng y dref ac ardal Llandysilio

T.15

Cynllun Ardal Llandysilio

T.16

Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

T. 22

Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.

I gyrraedd y nod yma, yn 20011/12 bu i’r Cyngor Sir wahodd cyngorau tref a chymuned a’r busnesau, y gymuned a’r sectorau gwirfoddol ym mhob un o’i brif drefi a’r cymunedau pellennig llai sy’n gysylltiedig â nhw i ymuno â’i gilydd i ddatblygu “cynlluniau trefol”. Yn 2013 cafodd y cynlluniau eu hymestyn i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau’r cymunedau gwledig llai sy’n gysylltiedig â’r trefi. Fe fydd y rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac fe fyddan nhw’n gosod allan

- **y sefyllfa bresennol yn y trefi a’r ardaloedd cysylltiedig**
- **y sialensiau a’r cyfleoedd allweddol y byddan nhw’n eu hwynebu yn y degawd nesaf**
- **gweledigaeth ar gyfer pob tref ac ardaloedd cysylltiedig i’w darparu â dyfodol cynaliadwy**
- **camau realistig a chyraeddadwy a fydd yn cyflenwi’r weledigaeth honno.**



CYNLLUN TREF LLANGOLLEN

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”

2013 – 2020

Diwygiwyd 20.20.13

LLANGOLLEN

Mae Llangollen yn sefyll ar Afon Dyfrdwy rhwng y Berwyn a mynyddoedd Rhiwabon, a Chastell Dinas Brân yn edrych drosti. Mae'r dref wedi bod yn fagned i deithwyr ac ymwelwyr ers dechrau'r 19g.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Clwyd a Safle Treftadaeth y Byd Thrachont Pontcysyllte a'r Gamlas yn rhan o ardal Llangollen.

Mae Llangollen yn enwog am ei Heisteddfod Gerddorol Genedlaethol flynyddol, a gynhelir bob mis Gorffennaf ym Mhafiliwn Llangollen, gyda chystadleuwyr yn dod o fwy na 50 o wahanol wledydd.

Fe ddaeth y rheilffordd i Llangollen yn 1862 ac mae'r rheilffordd sydd wedi ei hadfer yn awr yn cael ei rhedeg gan y Llangollen Railway PLC. Mae lein y rheilffordd yn ymestyn ar hyn o bryd i Garrog ond yn fuan bydd yn rhedeg cyn belled â Chorwen.

Mae adfeilion Castell Dinas Brân o'r 13g ar y llechwedd uwchlaw Llangollen ac mae cartref Merched Llangollen yn y 18g, Plas Newydd, yn y dref ei hun.

Poblogaeth tref Llangollen ydi 4079.

Mae'r dref yn gwasanaethu'r ardaloedd o gwmpas hefyd sef

Frncysyllte a'r Garth, Acrefair a Llandysilio: poblogaeth bellach o 4,260.



Lle rydym ni rŵan (Mae'r gwir ffigyrau ar gael yn yr Atodiad Ystadegol ac maent yn cynnwys Llandysilio)

Pobl

O'i chymharu â'r sir gyfan, mae tref Llangollen â

- **mwya o bobl 65 oed,**
- **canran uwch o bobl dros 85 oed,**
- **llai o bobl ifanc dan 15 oed,**
- **llai o aelwydydd yn hawlio budd-daliadau tai neu dreth y Cyngor**
- **cyfran debyg o aelwydydd sy'n orlawn**

Cymuned

O'i chymharu â'r sir gyfan,


- **mae mwya o bobl yn nhref Llangollen wedi eu geni yng Nghymru, ond**
- **mae llai o bobl yn gallu siarad Cymraeg.**

Mae'r gyfradd trosedd yn Llangollen yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer y Sir, yn enwedig o ran digwyddiadau o ddwyn a thrin. Mae cyfraddau'r digwyddiadau o drais a difrod troseddol yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer y Sir

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio fformiwla i fesur amddifadiad. Mae Cymru wedi ei rhannu'n 1896 o ardaloedd a rhai ohonyn nhw'n llai na wardiau Cyngor Sir. Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyafrif difreintiedig a 1896 i'r lleiafrif difreintiedig. Nid yw'r sgorau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser, fodd bynnag mae'n rhoi syniad i ni ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru am amddifadedd yn y dref.

Yn rhifyn 2011 o'r mynegai, mae pob ward wedi derbyn sgôr well na chawsant yn 2005.

"Ardal gynnyrch ehangach haen is"	Safle yn 2005	Safle yn 2008	Safle yn 2011
Llangollen 1	775	811	842
Llangollen 2	1118	915	1192
Llangollen 3	1482	1494	1607



Map yn dangos yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is

Swyddi

O'i chymharu â'r sir gyfan,

- mae llai o bobl sy'n byw yn Llangollen yn gweithio yn y sector gyhoeddus
- mae llai o bobl yn gweithio mewn manwerthu
- mae canran uwch o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu
- mae canran uwch o bobl yn gweithio mewn gwestai a thai bwyta
- mae llai o bobl yn cymudo dros 20km i'r gwaith, ac
- mae canran is o bobl o oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae incwm blynyddol aelwydydd yn Llangollen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych

Y Lle

Mae yna nifer o unedau manwerthu gwag yn Llangollen ond mae hyn yn llawer is na'r lefel cyfartalog ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Llangollen	7.1%	(10 uned)
UK	16.3%	(Colliers International)

Cyfraddau lleoedd gwag ar gyfer adeiladau manwerthu – Hydref 2012

Mae Llangollen â sawl atyniad poblogaidd, yn cynnwys Plas Newydd a gafodd 5855 o ymwelwyr yn 2011, Rheilffordd Stêm Llangollen a gafodd 77,000 o ymwelwyr yn 2012, Castell Dinas Brân, clwb golff nodedig, y gamlas (sydd bellach yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Traphont Pontcysyllte a'r Gamlas) a'i chychod sy'n cael eu tynnu gan geffylau, Abaty Glyn-y-groes, Amgueddfa Llangollen a Pharc Riverside, y draphont ei hun a Bwch yr Oernant ger Llangollen a Llandysilio.

Nifer y gwelyau mewn llety graddedig i ymwelwyr yn y dref ydi 146 ac mae yna 302 o welyau mewn llety hen eu graddio. Mae meysydd gwersylla a charfannau yn darparu 30 o leiniau graddedig a hyd at 200 o leiniau heb eu graddio.

Sialensiau a Chyfleodd y Dyfodol

Pobl

Mae yna gyfran uwch o bobl sydd dros 65 ac 85 yn Llangollen. Y rhagamcan yw bod y grŵp oedran hwn i gynyddu fel cyfran o'r boblogaeth, gan greu mwy o alw am wasanaethau lleol a chyfleodd ar gyfer busnesau lleol a'r economi leol. Mae poblogaeth sydd heb gartrefi parhaol yn defnyddio llety nad yw'n addas fel cartref tymor hir.

Cymuned

Nid oes yna safle amwynder dinesig parhaol.

Mae potensial i wella'r cae chwaraeon ar gyfer rygbi a pêl-droed. Mae yna hefyd safleoedd sydd naill ai angen gwelliannau i'w harwynebau neu angen gwella mynediad a pharcio.

Gellid defnyddio mwy ar y Pafiliwn fel adnodd ysgol a chymuned yn enwedig yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae yna lawer o weithgaredd cymunedol ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys clwb ieuenctid, ffermwyr ifanc, clwb pêl droed ieuenctid, tîm criced ieuenctid, sgowtiaid a'r 'beavers', band arian ieuenctid, grŵp ieuenctid operatig, brigâd y bechgyn.

Mae angen ailwampio cwt y sgowtiaid ac efallai symud y clwb yn y dyfodol.

Mae Parc Riverside yn boblogaidd ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae yna drefniant gweithio da efo perchennog y caffi i agor a chau'r toiledau cyhoeddus.

Mae corau sefydledig iawn yma yn cynnwys merched, cymysg a chôr bechgyn yn yr ysgol uwchradd.

Mae yna botensial i'r ganolfan Gofal Iechyd adleoli i safle'r cyn Woodlands Hotel a byddai hynny'n gofyn am ystyriaeth i lif cerddwyr / mynediad.

Swyddi

Mae yna nifer o adeiladau sydd ddim yn cael eu defnyddio ac sy'n cynnig potensial ar gyfer defnydd newydd yn y dyfodol.

Fe roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r gwaith printio ar gyrion y dref fel storfa fwyd.

Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi hefyd ar gyfer datblygiad safle cyflogaeth Greenfield yng Nghilmedw ar gyrion de orllewin y dref a gallai hyn hwyluso adleoliad Dobson and Crowther i safle newydd a fydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol.

Mae yna botensial i hyrwyddo ac annog twristiaeth sy'n fwy o werth i Langollen a gallai hynny olygu mwy o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi â chyflog uwch.

Mae yna farchnad botensial sydd heb ei hecsbloetio'n llawn eto ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynnwys y cyfleoedd ar yr afon ar gyfer canŵio a physgota.

Mae Rheilffordd Stêm Llangollen, yn ogystal â bod yn atyniad i ymwelwyr, yn darparu cyflogaeth a phrentisiaethau yn ei fusnes a'i weithdai peirianeg.

Y Lle

Mae Llangollen yn gyrchfan dwristiaid boblogaidd i ymwelwyr dydd. Mae yna gyfle i droi ymweliadau dydd yn arhosiad hirach.

Mae'r arwyddion yn y dref ac o'i chwmpas yn wael ac yn creu dryswch.

Nid oes yna le digonol i barcio yng nghanol y dref er bod darpariaeth parcio yn y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol wedi helpu rywfaint.

Mae'r farchnad wythnosol yn defnyddio rhan o'r maes parcio bysiau ym maes parcio Heol-y-farchnad a hynny'n lleihau'r gofod parcio sydd ar gael.

Mae Llangollen yn awr o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol estynedig a chlustogfa Safle Treftadaeth y Byd.

Mae Llangollen o fewn cyrraedd y llongau mordeithio sy'n docio yn Lerpwl ac yn cynnig teithiau i'r teithwyr.

Mae'r gamlas yn brysur iawn ac â hynny o gychod camlas ag sy'n bosib iddi eu cymryd ac mae hynny'n gallu golygu problemau cynnal a sbwriel.

Mae angen mwy o dai bwyta, yn enwedig i gynnal economi'r nos.

Nid oes yna unrhyw groesfan i gerddwyr ar neu'n agos at gyffordd yr A5 a Heol-y-Castell.

Mae yna wasanaeth bysiau da'n gwasanaethu Llangollen ond teimlir fod y gwasanaethau i Landysilio a Rhuthun yn annigonol.

Mae Cyngor y Dref wedi sicrhau dynodiad Cittaslow a allai effeithio'n bositif ar rai camau yn y Cynllun Trefol hwn.

Mae prosiect yn Rhaeadr yr Oernant yn gwella'r llwybr a'r toiledau, i ddarparu gwell dehongliad a mynediad i nodweddion hanesyddol mwyaf arwyddocaol Camlas Llangollen yn Sir Ddinbych.

Gweledigaeth ar gyfer Llangollen

Rydym ni am i Langollen

- **fod yn lle sydd â'i hunaniaeth unigryw ei hun**
- **fod yn lle bydd y genhedlaeth ieuengach yn aros a / neu ddychwelyd i fyw a gweithio**
- **fod yn lle gyda swyddi a thai fforddiadwy**
- **fod â gofal iechyd da ar gyfer pob oed**
- **fod yn lle sy'n darparu ar gyfer anghenion trigolion ac ymwelwyr ac yn maethu parch rhwng y naill grŵp a'r llall**
- **ddarparu cynnig ymwelwyr sydd o ansawdd a gwerth uwch**
- **barhau i fod yn lle 'lle mae Cymru'n croesawu'r byd'**

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer pobl

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Anghenion tai preswylwyr wedi eu cyflawni	Ymchwilio i ddarparu mwy o dai fforddiadwy	Tai'r Cyngor Sir Cymdeithas Tai Clwyd	1 – 5 blwyddyn
Anghenion y boblogaeth hŷn wedi eu cyflawni	Ymchwilio i ddarparu mwy o dai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn	Gwasanaethau Tai / Oedolion a Busnes	1 – 5 blwyddyn

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y gymuned

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Gwell cyfleusterau chwaraeon	Ymchwilio i ddichonolrwydd maes chwarae 3G a'r posibilrwydd o ddarparu maes rygbi a phêl droed ychwanegol. Fforio cyfleoedd i wella arwynebedd chwarae, mynediad a chyfleusterau ategol	Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgylcheddol a Datblygu Cymunedol CSDd	1 – 5 blwyddyn
Cyfleusterau lleol gwell	Ymchwilio i ddichonolrwydd safle amwynder dinesig newydd		
	Ystyried trosglwyddo gweithrediad y Farchnad i Gyngor y Dref	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 flwyddyn
	Ymchwilio i wella'r parcio ar gyfer y Ganolfan Iechyd oni bai ei bod yn ail-leoli i safle'r Woodlands Hotel ac felly byddai angen adolygiad achos o hygyrchedd o ganol y dref	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 flwyddyn
	Manteisio ar gyfle newydd i'r Seindorf Arian ehangu drwy gynorthwyo i adnewyddu eiddo cyfagos ar Stryd y Parêd sydd wedi ei gaffael.	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 flwyddyn

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer swyddi

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Diogelu cyflogaeth leol	Diogelu dyfodol Dobson and Crowther yn y dref	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Hwyluso darpariaeth safleoedd busnes newydd	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol a Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Gwella derbyniad lleol ar gyfer ffonau symudol	Trawsnewid Busnes a TGCh	1 – 5 blwyddyn
	Gwella Gwasanaethau Band Eang	Datblygu Economaidd a Busnes CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Ymchwilio i'r potensial o ddatblygiad Ffibr Optig ar gyfer safle Cil Medw	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Annog swyddi twristiaeth sydd o fwy o werth	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Cefnogi'r Rheilffordd i gyflawni ei model busnes	Tai a Datblygu Cymunedol	1 – 5 blwyddyn
	Diogelu dyfodol dichonadwy ar gyfer y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol yn cynnwys ymchwilio i'r potensial o ailwampio'r bloc toiledau yng nghefn Jenny Jones	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Fforio'r potensial i rieni ddychwelyd i'r gwaith drwy ymchwilio posibiliadau gofal cyn-ysgol	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 flwyddyn

Gwneud iddo ddigwydd...


Ar gyfer y lle

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Profiad gwell i ymwelwyr	Cynnal archwiliad llawn i arwyddion, parcio a symudiad traffig. Adnewyddu'r ffyrdd dynesu at Langollen, yn enwedig yr A5 a'r A539 Ystyried adleoli'r cerflun draenen wen	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 flwyddyn
Canol tref hyfyw	Ymchwilio effaith agor storfa fwyd newydd ar Heol-y-Berwyn ar gerddwyr a llif traffig, a pharcio tymhorol ar yr A5	Siambwr Masnach Llangollen, Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 – 5 blwyddyn
	Ecsploetio unrhyw farchnadoedd sydd heb eu dihysbyddu fel y farchnad gweithgareddau awyr agored	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 – 5 blwyddyn

Y Cysylltiad rhwng y dref ac ardal Llandysilio

Mae cysylltiad agos rhwng Llangollen a Llandysilio ac yn aml iawn mae atyniadau sydd mewn gwirionedd wedi eu lleoli yn ardal Llandysilio yn cael eu priodoli i Llangollen. Mae'r ardal yn ymestyn o Fynydd Llandysilio i Sun Bank ac mae'n cynnwys pentrefi Rhewl, Pentredwr ac Eglwyseg; safle sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n gartref i eglwys ganoloesol hardd Sant Tysilio a fu i Robert Browning ymweld â hi yn 1888. Mae dechrau'r Safle Treftadaeth y Byd wrth Raeadr Bwlch yr Oernant. Mae Camlas Llangollen, Abaty Glyn y Groes a'r Bont Gadwyn ar draws yr Afon Dyfrdwy (a fydd yn cael ei hadfer) i gyd yn ardal Llandysilio - yn ogystal â'r holl lwybrau cerdded sydd yn eich tywys ar draws y brynau. Mae ardal amaethyddol hefyd yn rhan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae trigolion Llandysilio yn mynd i Llangollen i brynu nwyddau a defnyddio gwasanaethau. Mae gan Llandysilio Gyngor Cymunedol gweithgar sy'n cydweithio gyda Chyngor Tref Llangollen i adfer y Bont Gadwyn.





CYNLLUN
ARDAL
LLANDYSILIO
“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”
2013 – 2020

12/11/2013

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y bobl a'r gymuned

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCH. ECON.	CANLYNIAD	ARWEINIWYD GAN	DECHRAU	DIWEDD
Edrych i mewn i brynu tir ychwanegol ar gyfer y fynwent.		Tir wedi ei ganfod	Cyngor Cymuned	1 Rhagfyr 2013	30 Rhagfyr 2014
		Cyfarfod rhwng CSDd a'r Cyngor Cymuned	Prisio ac Ystadau CSDd		
		Prisio	Cyngor Cymuned		
		Derbyn caniatâd cynllunio a/neu ganiatâd arall	Cyngor Cymuned		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Cyngor Cymuned a Datblygu Economaidd a Busnes		
		Tir wedi ei brynu ar gyfer mynwent	Cyngor Cymuned		
Archwilio systemau cludiant amgen e.e. tacsis/deialu a theithio. Bws mini cymunedol.	1.1	Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		System cludiant amgen yn ei lle (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Y Cyngor Cymuned yn gallu darparu offer ychwanegol ar gyfer pobl ifanc yr ardal yn ôl yr angen e.e. chwaraeon a hamdden.		Cyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned a Swyddog Estyn Allan CSDd.	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad/Achos busnes	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		
		Darpariaeth ychwanegol ar gyfer pobl ifanc (yn amodol ar Achos Busnes).	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc CSDd		
Edrych i mewn i ddarparu ategolyn gritio ychwanegol ar gyfer tractorau (i'w defnyddio yn ystod tywydd garw)	1.1	Cyfarfod rhwng Priffyrdd a'r Cyngor Cymuned ac unigolion perthnasol eraill	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Rhagfyr 2013	31 Tachwedd 2014
		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		

		Prynu ategolyn gritio a chytundebau cynnal a chadw blynyddol (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Gweithio gyda'r gymuned i'w cynorthwyo i ganfod arian i wella Canolfan Gymuned Pentredŵr (yr hen ysgol), a fyddai'n galluogi gwell defnydd gyda'r potensial o gynhyrchu incwm.	5.2 3.3	Gwelliannau angenrheidiol wedi eu hadnabod.	Cymdeithas Cymuned Pentredŵr a'r Cylch	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Cymdeithas Cymuned Pentredŵr a'r Cylch		
		Gwelliannau i Ganolfan Gymuned Pentredŵr	Cymdeithas Cymuned Pentredŵr a'r Cylch		
Edrych i mewn i ddarparu tai fforddiadwy i gadw pobl leol yn yr ardal	.	Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
		Darparu tai fforddiadwy (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
Edrych i mewn i ddarparu tai addas ar gyfer pobl hŷn		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Ebrill 2020
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		
		Darparu tai addas (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol CSDd		

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer swyddi

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCH. ECON.	CANLYNIAD	ARWEINIWYD GAN	DECHRAU	DIWEDD
Derbyn cefnogaeth (buddsoddiad sector preifat o bosib) i gadw gwasanaeth bws LIFT Llangollen (sydd ar hyn o bryd yn rhedeg yn ystod adegau prysur ac yn cludo teithwyr o un lle i'r llall yn rhad ac am ddim).	6.2 5.2	Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd		
		Parhad gwasanaeth (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd		
Edrych ar y posibilrwydd o annog rhieni yn ôl i weithio drwy edrych ar gynnal prosiect gofal cyn/ar ôl ysgol ar safleoedd Ysgol Bryn Collen / Ysgol y Gwernant.	3.3	Cynllun Busnes	Cwmni Buddiannau Cymunedol Llangollen	Dechreuwyd yn y Cynllun Tref	31 Mawrth 2015
		Dyluniad wedi ei gostio	Cwmni Buddiannau Cymunedol		
		Cynlluniau wedi eu trafod a'u cytuno gyda Gwasanaeth Addysg CSDd	Addysg CSDd		
		Derbyn caniatâd cynllunio a/neu ganiatâd arall	Cwmni Buddiannau Cymunedol		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Cwmni Buddiannau Cymunedol		
		Buddsoddi elw'r prosiect	Cwmni Buddiannau Cymunedol		
Gwell mynediad i fand eang.	1.2	Band eang cyflym i bob eiddo	Datblygu Economaidd a Busnes CSDd	1 Hydref 2014	31 Ebrill 2105

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer y lle

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCH. ECON.	CANLYNIAD	ARWEINIWYD GAN	DECHRAU	DIWEDD
Edrych ar wella a/neu ddarparu llwybr ar ran beryglus o'r A542 ger y tro am y Bont Gadwyn ym Mhentrefelin. Mae'r rhan yn oddeutu 100 llath o hyd ac yn arwain at Abbey Dingle.	5.2	Cyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned a Phriffyrdd CSDd	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Rhagfyr 2014	31 Mawrth 2017
		Adroddiad y Peiriannwr	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Dyluniad wedi ei gostio	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Derbyn caniatâd cynllunio a/neu ganiatâd arall	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Caffael tir os oes angen	Gwasanaethau Eiddo CSDd		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Gwelliannau/creu llwybr (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd				
Chwilio am arian i wella cyfleusterau Eglwys Llandysilio (toiledau ac adnewyddu). Mae'r eglwys ar hyn o bryd ar agor yn rheolaidd i ymwelwyr.	6.2	Gwaith wedi eu hadnabod a'u costio	Cyngor Plwyf	1 Rhagfyr 2013	31 Tachwedd 2015
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Cyngor Plwyf		
		Gwell cyfleusterau yn yr Eglwys	Cyngor Plwyf		
Cefnogi'r gwaith o adfer y Bont Gadwyn	6.2	Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Cyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Landysilio	Dechreuwyd yng Nghynllun Tref 2012	Mehafin 2014
		Pont wedi ei hadfer	Cyngor Tref Llangollen a Chyngor Cymuned Landysilio		
Edrych i mewn i ddarparu mwy o rwystrau diogelwch ar Fwlch yr Oernant.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Adroddiad y Peiriannwr	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		

		Dyluniad wedi ei gostio	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Arian wedi ei ganfod a'i sicrhau	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Darparu rhwystrau (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Edrych i mewn i gynlluniau lliniaru llifogydd ger Croes Eliseg		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned i ganfod y broblem	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Adroddiad y Peiriannwr	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Dyluniad wedi ei gostio	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Adroddiad/Achos busnes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Gwaith lliniaru llifogydd, (yn amodol ar Achos Busnes).	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
Cyfrannu at flaenoriaethu materion cynnal a chadw Priffyrdd.		Priffyrdd i ofyn i'r Cyngor Cymuned pa waith cynnal a chadw y dylid ei flaenoriaethu	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Rhaglen cynnal a chadw priffyrdd wedi ei chytuno arni	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		
		Y cyngor Cymuned i roi gwybod am faterion cynnal a chadw trwy wefan CSDd: https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/report-an-issue/report-an-issue.aspx	Cyngor Cymuned		
Gwell cyfathrebu gyda'r Cyngor Cymuned o ran trwsio a chynnal a chadw llwybrau a chamfeydd.		Defnyddio gwefan CSDd i roi gwybod am ddamweiniau: https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/public-rights-of-way.aspx	Cyngor Cymuned	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2020
		Rhaglen cynnal a chadw / atgyweirio wedi ei chytuno arni	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol CSDd		

Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

1. Gwelliannau i ran beryglus o lwybr ar yr A542 ger y tro am y Bont Gadwyn. Mae'r rhan dan sylw yn oddeutu 100 llathen ac yn arwain at Abbey Dingle. Gellir gwneud hyn trwy dîm Trafnidiaeth a Chludiant CSDd. Amcangyfrif o'r gost: Adroddiad y Peiriannwr £5,000. Cost gwelliannau i'r llwybr i'w gadarnhau.
2. Edrych ar brynu tir ychwanegol i ymestyn y fynwent yn Llandysilio. Mae'r Cyngor Cymuned wedi canfod oddeutu 1/3 erw. Gellir gwneud hyn trwy dîm Prisiao ac Ystadau CSDd. Amcangyfrif o'r gost: Adroddiad Cychwynnol ac Amser Swyddog £500. Pris y tir i'w gadarnhau
3. Edrych ar brynu ategolyn gritio ychwanegol i'w roi ar dractorau i glirio ffyrdd gwledig pan fo tywydd garw. Gellir gwneud hyn trwy Fflyd CSDd. Amcangyfrif o'r gost: £13,000 (Adroddiad £500.00; Ategolyn gritio £10,000; cost cynnal a chadw 5 mlynedd £500).

Sut fyddan ni'n gwybod ein bod ar y trywydd cywir?

Bydd y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned yn adolygu'r cynnydd. Bydd diweddariadau yn cael eu darparu i Grwpiau Ardal Aelodau, i'r Cyngor Tref ac i'r gymuned ehangach trwy Llais y Sir a datganiadau i'r wasg gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Cynllun yn ddogfen fyw a bydd modd ychwanegu ato a thynnu eitemau ohono wrth i amgylchiadau newid.

Pwy oedd yn rhan o'r gwaith i lunio'r cynllun hwn?

Lluniwyd y cynllun gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghori â Chynghorwyr Sir, Gwasanaethau, Aelodau Ward, Cyngor Cymuned Llandysilio, busnesau, ysgolion a'r gymuned ehangach.

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch:
econ.dev@denbighshire.gov.uk



Canran...	Tref Llangollen	Sir Ddinbych
Y bobl ifanc 15 oed ac iau	14.1	18.1
Y bobl dros 65 oed	25	21.1
Y bobl dros 85 oed	4.2	2.8
Y bobl sy'n hawlio budd-dal tai neu fudd-dal Treth y Cyngor	7.8	9.6
Yr aelwydydd gorlawn	3.3	3.0
Y bobl sydd wedi eu geni yng Nghymru	58.5	58.1
Y bobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	14.4	18.6
Y trigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus	31.4	35.7
Y trigolion sy'n gweithio ym maes gweithgynhyrchu	11.2	9.1
Y trigolion sy'n gweithio mewn gwestai a bwytai	10.4	6.9
Y trigolion sy'n gweithio ym maes manwerthu	12.2	14.4



*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011
Mae Ward Tref Llangollen yn cynnwys Llandysilio, Rhewl, Pentredŵr ac Eglwyseg*